# Gweld Dylanwad Rhufeinig Heddiw

Archaeoleg ar eich stepen drws

Daeth Oes y Rhufeiniaid i ben 1600 o flynyddoedd yn ôl, ond mae dylanwad concwest Rhufain a'i rheolaeth yn dal yn amlwg yng Nghymru heddiw. Mae i'w weld o'n cwmpas o ddydd i ddydd.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
amgueddfa cymru national museum wales





## Wyddor

Un hawdd i ddechrau. Mae ysgrifen ym mhobman.


Rydyn ni'n defnyddio'r wyddor Lladin i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.



## Rhifolion

Er ein bod ni'n defnyddio rhifolion Arabaidd mewn mathemateg, rydyn ni'n dal i ddefnyddio rhifolion Rhufeinig hefyd.

Cadwch lygad amdanyn nhw ar gofebau, neu ar ddiwedd rhaglenni teledu hyd yn oed.




## Lladin

Lladin oedd iaith Rhufain, ac mae i'w gweld heddiw mewn arysgrifiadau ar adeiladau, cerrig beddi a chofebau eraill.

Mae hefyd yn rhan o'n hiaith ni heddiw. Ydych chi byth wedi defnyddio 'e.g.' neu 'etc.'?

e.g. *exempli gratia* (er enghraifft)
etc. *et cetera* (ac ati)



## Pensaernïaeth

Dylanwadodd dulliau adeiladu Groeg a Rhufain ar benseiri diweddarach.

Pensaernïaeth Glasurol yw'r enw ar yr arddull hwn.

Mae adeilad Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn esiampl o'r traddodiad hwn.




## Trefi

Mae gan enwau nifer o drefi a dinasoedd wreiddiau Rhufeinig.

Mae enwau Cymraeg yn dechrau gyda 'Caer...' neu enwau Saesneg yn gorffen gyda '...chester' yn gliw mawr.

Ond mae gan enwau eraill wreiddiau Rhufeinig hefyd, felly mae'n werth ymchwilio bob tro.